

**Arolygiad o Bractis  
Deintyddol Cyffredinol  
[Â rhybudd]  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel  
Dda  
Hendy Gwyn Dental Centre**

22 Hydref 2014

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni: Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**Ebost:** [agic@wales.gsi.gov.uk](mailto:agic@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

Rhagymadrodd.....	2
Methodoleg.....	2
Cyd-destun .....	4
Crynodeb.....	5
Canfyddiadau .....	6
Profiad y Claf.....	6
Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru .....	8
Crynodeb.....	8
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	10
Ansawdd yr Amgylchedd.....	12
Y Camau Nesaf .....	14
Atodiad A.....	15

## Rhagymadrodd

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad â rhybudd o Hendy Gwyn Dental Centre yn Lomead House, St John Street, Hendy-gwyn ar Daf, Sir Gaerfyrddin, SA34 0AP, sy'n ffurfio rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ar 22 Hydref 2014.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried ac adolygu'r meysydd a ganlyn:

- Profiad y claf
- Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheolaeth ac Arweinyddiaeth
- Ansawdd yr Amgylchedd

## Methodoleg

Mae arolygiadau gan AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod mor dda y mae practisau'n bodloni'r safonau yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*<sup>1</sup>.

Yn ystod yr arolygiad, adolygasom ddogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, yn cynnwys:

- Gwybodaeth gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
- Cyfweiliadau ag aelodau staff, yn cynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau â chleifion a staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion

---

<sup>1</sup> Daeth 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru' i rym ar y 1<sup>af</sup> o Ebrill, 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru.

[www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438](http://www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438)

- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Y cyfarpar a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth a gwefan y practis

Ar ddiwedd pob arolygiad, darparwn drosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau'u bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai ddeillio o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Manylir ar unrhyw ganfyddiadau o'r fath, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Gofynnir i'r sawl a ddarlleno'r adroddiadau hyn ystyried bod arolygiadau deintyddol yn rhoi ciplun o'r safonau a gyflenwir yn y practis yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## Cyd-destun

Mae Hendy Gwyn Dental Practice yn darparu gwasanaethau i gleifion y GIG ac i gleifion preifat yn ardal Sir Gaerfyrddin. Mae'r practis yn ffurfio rhan o ystod o wasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae'r practis yn cael ei weithredu o dan Integrated Dental Holdings (IDH) ac ar adeg yr arolygiad roedd yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys pum deintydd, chwe nyrs ddeintyddol, dau dderbynnydd a rheolwr practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Archwilio, gwneud diagnosis a chynllunio triniaethau (gan gynnwys pelydrau-X)
- Cyngor a thriniaethau ataliol
- Triniaethau clefyd y deintgig (triniaethau periodontol)
- Llenwadau, llenwadau'r gwreiddyn, coronau a phontydd
- Tynnu dannedd (a thriniaethau llawfeddygol eraill)
- Gosod ac atgyweirio cyfarpar deintyddol (dannedd gosod a sblintiau)
- Rhagnodi a chyflenwi meddyginiaethau deintyddol

## Crynodeb

Edrychodd AGIC ar sut mae Hendy Gwyn Dental Practice yn bodloni safonau gofal yn y ddogfen *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*.

Yn gyffredinol, dywedodd cleifion eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth a ddarperir yn y practis a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Nid oedd gan y practis system ffurfiol ar gyfer casglu barn cleifion ac felly mae angen datblygu a gweithredu ar y maes hwn.

Ymhlith y sylwadau gan gleifion (a ddarperir yma gyda'u caniatâd) oedd:

*"Mae staff y dderbynfa yn grêt ac yn gwrtais bob amser"*

*"Staff effeithlon a chwrtais"*

*"Mae fy neintydd yn grêt"*

*"Mae popeth yn rhagorol"*

Canfuom fod gofal a thriniaethau'n cael eu cynllunio a'u cyflawni yn y ffordd a fwriadwyd er mwyn sicrhau diogelwch a lles pobl ac roedd y cyfarpar a'r cyfleusterau yn y ddeintyddfa yn dda ar y cyfan. Gofynnwyd iddynt gymryd camau ar unwaith i sterileiddio cyfarpar llaw digennu uwchsonig a blaenau ar ôl eu defnyddio bob tro. Gwnaed hyn ar unwaith, a chadarnhawyd hyn ar lafar gan reolwr y practis ar ddiwrnod yr arolygiad hwn a hefyd yn ysgrifenedig yn dilyn yr arolygiad. Argymhellwn fod blaenau chwistrell untro yn cael eu defnyddio.

Dechreuodd rheolwr newydd y practis ei swydd ym mis Awst 2014 a dywedodd y staff ei bod hi'n gymwynasgar ac yn hawdd mynd ati. Teimlai'r arolygwyr fod hyn yn wir o'u profiad hwy hefyd. Ymhlith rhai o'r gwelliannau a awgrymwyd i reolwr y practis oedd mabwysiadu ymagwedd fwy 'cynhwysfawr' yn y practis, er enghraifft gwella'r weithdrefn gwyno a darparu gwybodaeth mewn fformatau hygyrch ar gyfer ystod ehangach o bobl yn unol â'u hanghenion arbenigol. Roedd gan y staff ddigon o gyfleoedd i ddysgu a datblygu ac roedd y ffeiliau staff a archwiliwyd gennym yn cynnwys tystysgrifau hyfforddi ar gyfer y broses sefydlu a chysiau ac e-ddysgu dilynol a wnaed.

Gwelsom fod y deintyddfeydd, yr ardaloedd cylchredeg a'r ardaloedd aros yn lân, yn daclus, yn gynnes ac yn groesawgar. Yn ogystal, roedd yr ardaloedd clinigol a'r deintyddfeydd yn eang ac yn cynnwys digon o gyfarpar.

## Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Dywedodd y mwyafrif o gleifion eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth a ddarperir yn y practis a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Mae angen datblygu a gweithredu system ffurfiol ar gyfer casglu barn cleifion.**

Cwblhawyd pedwar ar bymtheg o holiaduron gan gleifion cyn yr arolygiad. Buom yn siarad â 13 o gleifion ychwanegol ac un gofalwr ar ddiwrnod yr arolygiad.

Dywedodd y mwyafrif o gleifion wrthym fod y staff yn groesawgar a'u bod yn fodlon â'r gwasanaeth a gawsant gan y practis deintyddol. Cododd tri chlaf bryderon ynghylch un deintydd yn arbennig, gan ddweud bod y deintydd yn swta, ei fod yn gallu bod yn "ddiofal" ac nad oedd yn darparu digon o esboniad am eu triniaeth. Dywedodd yr holl gleifion eraill eu bod yn hapus gyda'r gofal a roddir gan eu deintydd.

Arsylwyd staff y dderbynfa yn siarad â chleifion mewn dull cwrtais a chymwynasgar. Dangosodd y sgysiau gyda chleifion ynghylch apwyntiadau eu bod yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth neges destun neu alwad ffôn gan y practis i'w hatgoffa am eu hapwyntiad oedd yn agosáu.

Dywedodd y staff y buom yn siarad â hwy y gallai cleifion wneud apwyntiadau arferol ac mewn argyfwng, gyda chleifion yn cael eu gweld yn brydlon ar gyfer gofal mewn argyfwng. Mae'r practis hefyd yn cymryd rhan mewn sesiynau mynediad y GIG<sup>2</sup> a drefnir drwy Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac a gynhelir bob prynhawn dydd Mercher i ddarparu apwyntiadau mewn argyfwng ar gyfer hyd at dri chlaf.

Yn gyffredinol dywedodd cleifion wrthym eu bod yn cael digon o wybodaeth am eu triniaeth. Nododd tri chlaf y byddent yn hoffi derbyn mwy o wybodaeth. Gwnaeth rhai cleifion sylwadau ar y ffaith bod y staff yn newid yn aml sy'n

---

<sup>2</sup>Nod (cynllun peilot) sesiynau mynediad y GIG yw gwella mynediad i wasanaethau deintyddol y GIG i gleifion sydd ag angen deintyddol brys ac nad ydynt yn gweld deintydd ar gyfer eu gofal deintyddol parhaus. Ar hyn o bryd dim ond o fewn rhai practisau deintyddol o fewn ardal Abertawe Bro Morgannwg y mae'r gwasanaeth ar gael.

[www.wales.nhs.uk/sitesplus/863/opendoc/239189](http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/863/opendoc/239189)



golygu nad oeddent yn gallu gweld yr un deintydd bob tro. Trafodwyd y newidiadau o ran staffio gyda nyrs ddeintyddol a rheolwr y practis a ddywedodd fod y newidiadau hyn wedi lleihau dros y ddwy flynedd ddiwethaf a bod tîm staff sefydlog yn y practis ar hyn o bryd.

Nid oedd yr holl gleifion yn ymwybodol o sut i gael mynediad i'r gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Dywedodd y cleifion eraill eu bod yn ymwybodol o'r gwasanaethau hyn ac eglurodd un claf yr arwyddion o amgylch y practis a'r wybodaeth ar y peiriant ateb wrth ffonio'r practis y tu allan i oriau.

Drwy ein trafodaethau gyda grŵp o gleifion, dywedodd y cleifion wrthym y byddent yn hoffi'r cyfle i wneud sylwadau ac awgrymiadau ac amlygwyd yr angen am 'flwch sylwadau'. Canfuom fod y ffurflenni adborth ar gael yn yr ardaloedd aros ond yn amlwg nid oedd y cleifion yn ymwybodol o'r rhain a chadarnhaodd rheolwr y practis nad oeddent yn cael eu dosbarthu fel mater o drefn. Dywedodd rheolwr y practis wrthym hefyd nad oeddent yn cynnal arolygon cleifion i gael barn y cleifion.

Wrth drafod hawliau cleifion gyda rheolwr y practis cawsom ein hysbysu bod nifer o bobl o Wlad Pwyl yn mynychu'r practis ond nad yw gwybodaeth ysgrifenedig ar gael iddynt ym Mhwyleg. Mae rhai o'r staff yn y practis yn siarad Pwyleg ac felly awgrymwyd y dylid mabwysiadu amgylchedd mwy 'cynhwysfawr' ar gyfer pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel eu hiaith gyntaf.

### ***Argymhellion***

***Dylid datblygu system ffurfiol i gael barn cleifion a gweithredu ar y farn honno.***

***Dylid ystyried cynnig gwybodaeth mewn ieithoedd eraill.***

## **Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru**

### **Crynodeb**

**Yn gyffredinol, canfuom fod gofal a thriniaethau'n cael eu cynllunio a'u cyflawni yn y ffordd a fwriadwyd er mwyn sicrhau diogelwch a lles pobl ac roedd y cyfarpar a'r cyfleusterau yn y ddeintyddfa yn dda. Gofynnwyd iddynt gymryd camau ar unwaith i sterileiddio cyfarpar llaw digennu uwchsonig a blaenau ar ôl eu defnyddio bob tro. Argymhellwyd bod blaenau chwistrell untro yn cael eu defnyddio. Gwnaed argymhellion hefyd mewn perthynas â chofnodi a monitro gwybodaeth a chynnal a chadw cyfarpar.**

Buom yn craffu ar gofnodion deintyddol 11 claf (sampl o gofnodion cleifion o bob deintydd) a chanfuom eu bod wedi'u dogfennu a'u cynnal yn dda ar y cyfan. Argymhellwyd y gellid defnyddio cofnodion cyfrifiadurol yn well mewn rhai achosion, er enghraifft wrth amlygu gwybodaeth yn ymwneud â phobl sydd ag anghenion ychwanegol (fel nam ar y synhwyrau, anabledau neu anghenion dysgu), amlygu pan dderbyniwyd pryder/cwyn a chofnodi'r dyddiad ail-alw (apwyntiad) nesaf.

Canfuom fod cyfarpar (pelydr-x) radiograffeg, cyfarpar gofal y geg ychwanegol a chyfarpar dadebru a'r ddogfennaeth gysylltiedig yn foddhaol. Roedd y tystysgrifau arolygu ar gyfer radiograffau a'r holl beiriannau pelydr-x wedi dod i ben ym mis Mai 2014 ac felly mae angen trefnu rhai newydd ar unwaith. Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer cadw cyffuriau yn ddiogel. Awgrymwyd y gellid gwella'r system bapur bresennol ar gyfer monitro dyddiadau dod i ben cyffuriau drwy gofnodi a monitro dyddiadau dod i ben o'r system gyfrifiadurol. Roedd dyddiadau dod i ben cyfredol gan yr holl gyffuriau a wiriwyd gennym.

Nid oedd y cyfarpar digennu uwchsonig a'r blaenau chwistrell (nad oeddent yn rhai untro) yn cael eu sterileiddio yn unol â gofynion<sup>3</sup>. Codwyd hwn fel mater brys gyda rheolwr y practis ac anfonwyd llythyr gweithredu ar unwaith gan AGIC. Cymerwyd camau prydlon gan reolwr y practis a dilynwyd hyn gan gadarnhad ysgrifenedig a ddangosodd eu bod yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn. Canfuwyd bod y gweithdrefnau dadheintio oedd ar waith a'r cyfarpar at y diben

---

<sup>3</sup>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05

hwn yn foddhaol. Roedd eitemau a chyfarpar clinigol yn cael eu storio yn yr ystafell ddadheintio nes bod eu hangen ar y deintydd, a nodwyd bod yr arfer hwn yn enghraifft o arfer da.

Roedd gweithdrefnau effeithiol ar waith ar gyfer trin, storio a gwaredu gwastraff peryglus a chlinigol. Roedd cyfleusterau golchi dwylo a gwaredu cynnyrch ar gael i leihau'r risg o groes-heintio.

### **Argymhellion**

***Sicrhau bod arolygiadau o radiograffau a chyfarpar pelydr-x yn cael eu cynnal o leiaf bob tair blynedd<sup>4</sup>.***

***Sicrhau bod radiograffau 'bitewing' (h.y. pelydrau-x o'r dannedd top a gwaelod) yn cael eu cymryd ar yr adegau a argymhellir.***

***Dylai'r holl radiograffau gael eu gwerthuso yn y nodiadau clinigol yn unol â'r rheoliadau perthnasol<sup>5</sup>.***

***Dylid cofnodi'r cyfnodau ail-alw a argymhellir yn y nodiadau clinigol yn unol â'r canllawiau perthnasol<sup>6</sup>.***

---

<sup>4</sup>Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 (IRMER)

<sup>5</sup> Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 (IRMER)

<sup>6</sup> Canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE).

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

### **Crynodeb**

**Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod rheolwr newydd y practis, a ddechreuodd ei swydd ym mis Awst 2014, yn eu cefnogi. Dywedodd y staff ei bod yn gymwynasgar ac yn hawdd mynd ati. Roeddem yn teimlo bod hyn yn wir o'm profiad yn ystod yr arolygiad hefyd. Roedd gan y staff ddigon o gyfleoedd i ddysgu a datblygu ac roedd y ffeiliau staff a archwiliwyd gennym yn cynnwys tystysgrifau hyfforddi ar gyfer y broses sefydlu a chysiau ac e-ddysgu dilynol a wnaed.**

Roedd rheolwr y practis yn newydd i'w swydd ac roedd awgrym nad oedd wedi sefydlu ei hun yn llwyr eto mewn rhai meysydd lle mae ganddi rolau i'w chwarae a chyfrifoldebau i'w cyflawni. Er enghraifft, cyflwynwyd ffeil o bolisïau a oedd newydd eu hargraffu i'r arolygwyr ond nid oedd gweithdrefnau clir i staff y practis eu dilyn i ategu rhai ohonynt. Pan amlygwyd hyn, eglurodd rheolwr y practis fod y sefydliad (IDH) wedi darparu'r polisïau hyn. Nid oedd cofnod i egluro sut yr ymdriniwyd â dwy gŵyn (a dderbyniwyd o fewn y 12 mis diwethaf a chyn i reolwr y practis ddechrau'r swydd) a dywedodd rheolwr y practis ei bod yn cymryd yr ymdriniwyd â hwy ar lafar.

Felly, awgrymwyd ffyrdd o hyrwyddo ymagwedd fwy rhagweithiol a chytunodd rheolwr y practis, a oedd yn gydweithredol ac yn agored i'n hawgrymiadau, i fynd ar drywydd y ddwy gŵyn i sicrhau eu bod wedi'u datrys mewn ffordd foddhaol. Argymhellwyd hefyd bod rheolwr y practis yn gwneud cysylltiad â phobl a sefydliadau perthnasol, fel y Cyngor Iechyd Cymuned, er mwyn gwella'i gwybodaeth a'i rhwydwaith proffesiynol.

Nododd trafodaethau pellach gyda'r derbynnydd a rheolwr y practis fod diffyg system gadarn wrth ymateb i gŵyn lafar neu ysgrifenedig. Nid oedd naw o'r cleifion yn gwybod sut i wneud cwyn. Roedd polisïau cwyno i'w gweld ar hysbysfyrddau yn yr ystafelloedd aros ond roedd polisi cwyno'r practis mewn print bach iawn, gan ei wneud yn anodd ei ddarllen. Gwelsom fod polisïau'r practis ac IDH<sup>7</sup> yn cyfeirio at amserlenni ymateb gwahanol a oedd yn ddryslyd. Nid oedd yr amserlenni hyn yn cyd-fynd â gweithdrefn y GIG ar gyfer cleifion yng Nghymru o'r enw 'Gweithio i Wella'. Cynghorwyd rheolwr y practis hefyd

---

<sup>7</sup> IDH yw'r corff corfforaethol y mae Hendy Gwyn Dental Practice yn gweithredu oddi dano

bod angen nodi'r gwahaniaeth rhwng gwneud cwyn ar gyfer cleifion preifat a chleifion y GIG, gan fod hawliau cleifion yn wahanol yn hyn o beth.

Roedd rheolwr y practis yn cynnal archwiliadau mewnol a gwelsom sampl o'r rhain a oedd yn cynnwys archwiliad o ansawdd radiograffau, cofnodion clinigol a'r defnydd o ragnodi gwrthficrobaidd. Ni welsom unrhyw archwiliadau rheoli heintiau<sup>8</sup> ac nid oedd rheolwr y practis yn gallu dangos enghraifft o'r rhain ar ddiwrnod yr arolygiad er, yn dilyn yr arolygiad, cawsom ein hysbysu eu bod wedi'u cynnal.

Buom yn edrych ar gofnodion y cyfarfod tîm diwethaf, dyddiedig mis Ionawr 2014, a ddangosodd arfer da wrth rannu gwybodaeth ac a oedd yn cynnwys y camau a gymerwyd neu a oedd angen eu cymryd er mwyn datblygu a dysgu o brofiadau. Roedd rheolwr y practis yn bwriadu ailddechrau cyfarfodydd tîm yn fisol, gan ddechrau ym mis Tachwedd 2014. Roedd y rheolwr hefyd yn bwriadu mynychu hyfforddiant adolygu perfformiad ym mis Tachwedd 2014 a dywedodd y byddai'n dechrau'r broses o werthuso aelodau staff yn flynyddol wedi hynny.

### **Argymhellion**

***Datblygu gweithdrefn gwyno gadarn y dylid ei rhannu â staff a chleifion. Rhaid i'r gweithdrefnau a'r polisiau gydfynd â gweithdrefn y GIG 'Gweithio i Wella'.***

***Adolygu'r holl bolisiau eraill a datblygu gweithdrefnau perthnasol i staff y practis eu dilyn lle y bo angen. Rhaid talu sylw arbennig i sicrhau bod y rhain yn adlewyrchu canllawiau a pholisiau yng Nghymru.***

***Rhaid i'r practis allu dangos bod archwiliadau rheoli heintiau yn cael eu cynnal yn chwarterol.***

---

<sup>8</sup>Argymhellir archwiliadau chwarterol fel mater o drefn yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

### **Crynodeb**

**Yn ystod taith o'r adeilad gwelsom fod y deintyddfeydd, yr ardaloedd cylchredeg a'r ardaloedd aros yn lân, yn daclus, yn gynnes ac yn groesawgar. Yn ogystal, roedd yr ardaloedd clinigol a'r deintyddfeydd yn eang ac yn cynnwys digon o gyfarpar.**

Mae'r practis ar agor rhwng 8.30 a.m. a 5.00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Iau, gydag amser cau dydd Gwener wedi'i ymestyn yn ddiweddar o 2.00 p.m. i 4.30 p.m. Ar adeg yr arolygiad nid oedd yr amser cau newydd ar gyfer dydd Gwener wedi'i ddiweddarau ar wefan y practis nac mewn gwybodaeth ysgrifenedig.

Roedd y practis yn un prysur ac wedi'i leoli yng nghanol tref fach Hendy-gwyn ar Daf, Sir Gaerfyrddin. Mae parcio ar y stryd y tu allan i'r practis a maes parcio cyhoeddus gerllaw. Gallai un o leoedd parcio'r staff wrth gefn yr adeilad gael ei ddefnyddio gan rywun a oedd ei angen, fel y cadarnhaodd rheolwr y practis.

Nid oes angen dringo grisiau er mwyn mynd i mewn i'r adeilad sy'n golygu ei fod yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn neu sydd ag anawsterau symud. Mae dwy ddeintyddfa ar y llawr daear ac mae tair deintyddfa ar y llawr cyntaf. Roedd canllawiau ar y ddwy ochr i'r grisiau. Gwelsom fod yr ystafell aros i fyny'r grisiau ychydig yn fach o ganlyniad i'w maint a nifer y cadeiriau yr oedd eu hangen yn yr ystafell hon.

Gwelsom fod nifer o arwyddion a ffynonellau gwybodaeth mewn rhannau amrywiol o'r adeilad ac roedd rhai ohonynt wedi dyddio, gan fynd yn ôl i 2005. Roedd y mwyafrif helaeth o'r posteri hyn mewn fformat ysgrifenedig yn unig, ac roedd rhai ohonynt gyda thestun print bach a oedd yn golygu eu bod yn anodd ei darllen o bellter. Dywedodd dau glaf y buom yn siarad â hwy fod yr hysbysfyrddau yn rhy llawn ac felly nid oedd gwybodaeth bwysig, fel rhestrï prisiau ar gyfer triniaethau, yn amlwg. Gwelsom hefyd fod rhai o'r un posteri yn cael eu harddangos mewn sawl ardal drwy gydol y practis ac roedd tŷn gyffredinol y rhain yn eithaf negyddol, gan gyfeirio at ddirwyon ar gyfer peidio â thalu a 'dim goddefgarwch i achosion o gam-drin staff'. Nid oedd unrhyw gyfleusterau neu wybodaeth i gadw plant yn brysur tra'n aros am driniaeth.

Roedd gan staff a chleifion fynediad i doiled i ddynion a merched ar y llawr cyntaf a thoiled ar y llawr daear a oedd yn addas i bobl ag anableddau. Roedd y toiled ar y llawr gwaelod ar glo pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio, ac er mwyn cadw urddas pobl, awgrymwyd bod cleifion yn gallu defnyddio'r toiled heb orfod gofyn am allwedd wrth y dderbynfa. Roedd dau o'r canllawiau yn y toiled yn rhydd a chytunodd rheolwr y practis i ddelio â hyn ar unwaith.

Nid oedd yr holl ystafelloedd neu ardaloedd a ddefnyddir gan staff yn cael eu cloi fel mater o drefn pan nad oeddent yn cael eu defnyddio ac argymhellwyd bod hyn yn digwydd am resymau diogelwch. Gwelsom fod gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei storio a'i chloi mewn cypyrddau a chabinetau.

Roedd arwyddion ar gyfer allanfeydd tân a gwelsom fod diffoddwyr tân ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf.

### ***Argymhellion***

***Dylai'r practis ystyried arddangos llai o bosteri ac arwyddion. Dylid ystyried pobl sydd ag anghenion cyfathrebu ychwanegol, er enghraifft drwy ddarparu fersiynau darluniadol a hawdd i'w darllen o wybodaeth a phosteri.***

***Dylid cloi'r ystafelloedd a ddefnyddir gan y staff pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.***

## Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwelliannau o ran Profiad Cleifion, Cyflawni Safonau gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth, ac Ansawdd yr Amgylchedd. Gellir gweld manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwelliannau ddatgan yn eglur pa bryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Hendy Gwyn Dental Centre yn cael sylw, yn cynnwys graddfeydd amser.

Bydd y cynllun gwelliannau, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses barhaus o arolygu deintyddol.



**Atodiad A**

**Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella**

**Practis: Hendy Gwyn Dental Centre**

**Dyddiad yr Arolygiad: 22 Hydref 2014**

<b>Rhif y Dudalen</b>	<b>Argymhelliad</b>	<b>Cam gweithredu'r Practis</b>	<b>Swyddog Cyfrifol</b>	<b>Amserlen</b>
	<b>Profiad y Claf</b>			
	Dylid datblygu system ffurfiol i gasglu barn cleifion a gweithredu ar y farn honno			
	<b>Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru</b>			
	Sicrhau bod radiograffau, cyfarpar OPG ac intraoral/periapical yn cael eu harolygu bob tair blynedd			
	Sicrhau bod radiograffau "bitewing" yn cael eu cymryd ar yr adegau a argymhellir			
	Dylai'r holl radiograffau gael eu gwerthuso yn y nodiadau clinigol yn unol â'r rheoliadau perthnasol			

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Dylid cofnodi'r cyfnodau ail-alw a argymhellir yn y nodiadau clinigol yn unol â'r canllawiau perthnasol			
<b>Rheoli ac Arweinyddiaeth</b>				
	Datblygu gweithdrefn gwyno gadarn y dylid ei rhannu â staff a chleifion. Rhaid i'r gweithdrefnau a'r polisïau gyd-fynd â gweithdrefn y GIG 'Gweithio i Wella'.			
	Rhaid i'r practis allu dangos bod archwiliadau rheoli heintiau yn cael eu cynnal yn chwarterol.			
<b>Ansawdd yr Amgylchedd</b>				
	Dylid ystyried pobl sydd ag anghenion cyfathrebu ychwanegol, er enghraifft drwy ddarparu fersiynau darluniadol a hawdd i'w darllen o wybodaeth a phosteri			
	Dylid cloi'r ystafelloedd a ddefnyddir gan y staff pan nad ydynt yn cael eu defnyddio			

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (wedi'i brintio):**.....

**Teitl:** .....

**Llofnod:** .....

**Dyddiad:** .....